
# JWDAS tri deg darn arian

www.lambsongs.co.nz gan Jill Kemp (cyf. Dafydd Timothy) Lluniau: Richard Gunther





Ple bynnag yr aeth Iesu, roedd tyrfaoedd o bobl yn Ei ddilyn, llawer ohonyn nhw'n sâl ac yn dlawd. Yn aml, fe fase Iesu a'i ddilynwyr yn rhoi arian iddyn nhw, gan gadw'r darnau arian mewn bag.



Roedd Jwdas Iscariot yn un o'r deuddeg disgybl a ddewisodd Iesu. Fe oedd yn edrych ar ôl y bag oedd yn cynnwys yr arian fyddai Iesu'n ei roi i bobl dlawd iawn oedd yn methu â gweithio.




Fe welodd Jwdas lawer o wyrthiau. Pan gyffyrddodd Iesu â phobl oedd yn ddall, roedden nhw'n medru gweld, gwahangleifion yn cael eu hiachau a phobl oedd erioed wedi gallu cerdded, yn sefyll i fyny a neidio'n llawen.




Dysgodd Iesu Jwdas a'i ffrindiau,
“Rwyt i garu Duw â'th holl galon, a charu eraill fel rwyt ti'n dy garu dy hun.” Roedd Jwdas yn caru Iesu, ond roedd yn caru arian yn fwy.




Roedd arweinwyr y deml am gael gwared ar Iesu, felly dyma Jwdas yn cynnig dangos iddyn nhw lle i gael hyd iddo, yn gyfnewid am arian. Cafodd dri deg darn o arian ganddyn nhw.



Cymerodd Jwdas warchodlu'r deml at Fynydd yr Olewydd i chwilio am Iesu. Wrth iddo gamu ymlaen i gyfarch Iesu trwy ei gusanu ar ei foch, er mwyn dangos iddyn nhw pwy i'w arestio, gofynnodd Iesu, “Jwdas, wyt ti'n bradychu fi â chusan?”



Pan arestiwyd Iesu a'i groeshoelio, roedd yn ddrwg iawn gan Jwdas. Fe geisiodd rhoi'r arian yn ôl, ond gwrthododd arweinwyr y deml â'i dderbyn, felly dyma fe'n ei daflu ar lawr y deml ac aeth allan a'i grogi ei hun ar goeden.



Doedd arweinwyr y deml ddim yn gwybod beth i'w wneud gyda'r arian, felly dyma nhw'n prynu'r tir diwerth y tu allan i'r ddinas, lle'r oedd y crochenwyr yn palu am glai i wneud eu llestri. Dyma nhw'n gwneud lle i gladdu unrhyw ddieithriaid oedd yn marw yn eu tref.